Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Mawrth 2025

## 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024.

**2.** Mae enw hir y Bil yn datgan y canlynol amdano:

> *"A Bill to make provision to amend the law relating to employment rights; to make provision about procedure for handling redundancies; to make provision about the treatment of workers involved in the supply of services under certain public contracts; to provide for duties to be imposed on employers in relation to equality; to provide for the establishment of the School Support Staff Negotiating Body and the Adult Social Care Negotiating Body; to make provision about trade unions, industrial action, employers' associations and the functions of the Certification Officer; to make provision about the enforcement of legislation relating to the labour market; and for connected purposes."*

**3.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**4.** Gosododd Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ("y Gweinidog"), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn cysylltiad â'r Bil ar 5 Rhagfyr 2024.[1]

**5.** Ar 10 Rhagfyr 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ("y Pwyllgor"), y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'w drafod, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 7 Mawrth 2025.[2]

**6.** Ar 19 Rhagfyr 2024, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("y Memorandwm Atodol").[3] Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 7 Mawrth 2025.[4]

**7.** Ar 18 Chwefror 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar y memoranda sy'n ymwneud â'r Bil, sef 28 Mawrth 2025.[5]

# 2. Y Memorandwm

**8.** Mae paragraffau 4 i 11 o'r Memorandwm yn rhoi crynodeb o'r Bil a'i amcanion polisi.

## Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**9.** Mae paragraff 12 o'r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch pa gymalau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer,

[1] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024
[2] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) – Y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024
[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Ionawr 2025
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Chwefror 2025

sef cymalau 25, 26, 49, 52, 54, 61 ac 71. Mae paragraff 13 yn nodi mai barn Llywodraeth y DU yw mai dim ond ar gyfer cymal 25 y mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

**10.** Dyma grynodeb o'r cymalau a restrir uchod:

### Cymal 25

**11.** Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â gwarchod gweithwyr sy'n trosglwyddo mewn contractau allanoli. Mae'r Memorandwm a'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn datgan mai diben y cymal hwn yw creu pŵer i un o Weinidogion y Goron wneud rheoliadau a gosod dyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer statudol. Bwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio i nodi mesurau i osgoi sefyllfaoedd pan fo gweithlu yn cynnwys cyn-weithwyr y sector cyhoeddus a gweithwyr y sector preifat, gyda phob grŵp ar delerau ac amodau gwahanol, a elwir yn gyffredin yn "weithlu dwy haen".

**12.** Mae'r Bil yn eithrio awdurdodau Cymreig datganoledig rhag cwmpas yr adran newydd (ac eithrio pan fyddant yn cymryd rhan mewn trefniadau caffael a gedwir yn ôl ac unrhyw "drefniant caffael Cymreig datganoledig"). Roedd darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Caffael 2023 yn destun Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.[6]

### Cymal 26

**13.** Mae cymal 26 yn mewnosod adran newydd 78A yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol lunio a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus Cymreig datganoledig wedi'u heithrio, ond mae Comisiwn y Senedd (o dan ei enw blaenorol, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn dod o dan y ddarpariaeth hon.

**14.** Mae cymal 26 hefyd yn caniatáu i reoliadau a wneir oddi tano fod yn gymwys i Asiantaeth yr Amgylchedd, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig. Er nad yw'r cyrff hyn yn awdurdodau Cymreig datganoledig, mae cymal 26 yn datgan bod rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i'r cyrff hyn o dan y ddarpariaeth hon. Nid

[6] Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Caffael

oes gofyniad tebyg i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd.

## Cymalau 49, 52, 54 ac 71

**15.** Mae cymalau 49, 52 a 54 yn dileu neu'n diwygio gwahanol ddarpariaethau Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 ("Deddf 1992"), sy'n ymdrin â didyniadau o gyflogau gan gyflogwyr perthnasol y sector cyhoeddus am danysgrifiadau i undebau llafur; gwneud rheoliadau gan un o Weinidogion y Goron sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau'r undebau llafur; a'r mwyafrif sydd ei angen i bleidleisio mewn pleidlais ynghylch gweithredu diwydiannol. Diben y diwygiad i Ddeddf 1992 yw negyddu diwygiadau a wnaed yn flaenorol i Ddeddf 1992 gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 ("Deddf 2016").

**16.** Mae'r holl ddarpariaethau oedd y mae cymalau 49, 52 a 54 yn effeithio arnynt wedi'u datgymhwyso yng Nghymru o'r blaen mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig o dan Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Mae cymal 71 yn diddymu adran 1 o Ddeddf 2017, a ddatgymhwysodd rai o'r newidiadau a wnaed i Ddeddf 1992 gan Ddeddf 2016. Gan fod y newidiadau hyn bellach yn cael eu diddymu gan y Bil hwn, nid oes angen adran 1 o Ddeddf 2017 mwyach.

## Cymal 61

**17.** Mae cymal 61 o'r Bil yn diddymu Deddf Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) 2023 ("Deddf 2023"), gan ddadwneud y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf honno i Ddeddf 1992. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â gwneud Deddf 2023.[7] Nid oedd Llywodraeth y DU yn cytuno â hyn.

**18.** Ym mis Mawrth 2023, gosododd y Pwyllgor adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Ddeddf 2023. Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

[7] Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)

> *"Mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymell nad yw'r Senedd yn cydsynio â'r Bil hwn."*[8]

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

**19.** Mae paragraff 14 yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil. Nodir:

> *"Mae'r darpariaethau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo ac annog gwaith teg. Mae'r Bil Hawliau Cyflogaeth yn rhoi cyfle gwerthfawr ac angenrheidiol i gryfhau hawliau cyflogaeth ledled Prydain Fawr, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru."*[9]

## Goblygiadau ariannol

**20.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod "goblygiadau ariannol ansylweddol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer". Mae paragraff 15 yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru y tu ôl i'r datganiad hwn.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad

**21.** Mae'r Memorandwm yn gorffen â barn y Gweinidog ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r darpariaethau hyn yn y Bil gan Lywodraeth y DU:

> *"Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg ac yn rhoi cyfle i gryfhau hawliau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr yng Nghymru. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[10]

[8] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol), Mawrth 2023
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024, paragraff 14
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024, paragraff 16

# 3. Y Memorandwm Atodol

**22.** Mae paragraffau 13 i 18 o'r Memorandwm Atodol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm, yn benodol bod cais wedi'i wneud i Lywodraeth y DU am welliannau i gymal 25 o'r Bil, a oedd wedi'i dderbyn wedi hynny.

**23.** Mae'r Memorandwm Atodol yn datgan mai effaith y gwelliannau hyn fydd ailstrwythuro'r darpariaethau newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Caffael 2023 fel y byddai'r pwerau a freiniwyd yn flaenorol yn yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn awr hefyd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae'r gwelliannau hefyd yn egluro nad yw'r ddyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn dibynnu ar wneud y rheoliadau.

**24.** Mae'r Memorandwm Atodol yn mynd ymlaen i ddatgan mai effaith ymarferol y gwelliannau o ran Cymru yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau mewn rheoliadau i sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo i gontractwr a gweithwyr sydd eisoes yn gweithio i'r contractwr hwnnw yn cael eu trin yn gyfartal, ac i gyhoeddi cod ymarfer ar faterion cysylltiedig. Bydd y darpariaethau newydd hyn yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

**25.** Daw'r Memorandwm Atodol i'r casgliad a ganlyn:

> *"Gwnaed y gwelliannau i'r Bil ar fy nghais i er mwyn annog mwy o gysondeb yn y maes hwn o ddeddfwriaeth. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[11]

# 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

**26.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2025.[12] Yn ystod ei ystyriaethau, trafododd yr Aelodau bryderon ynghylch Cymal 26 o'r Bil. Er y byddai'r pwyllgor fel arfer yn canolbwyntio

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) – Y Bil Hawliau Cyflogaeth, Rhagfyr 2024, paragraff 25
[12] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Chwefror 2025

ar agweddau polisi'r Bil a bod hwn yn fater cyfansoddiadol, roedd yr Aelodau'n teimlo ei fod mor bwysig y dylent roi sylw iddo yn yr adroddiad hwn.

**27.** Fel y nodwyd uchod, mae Cymal 26 yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol lunio a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd. Mae Comisiwn y Senedd wedi'i gynnwys yn y rhestr o gyrff cyhoeddus y mae'r Cymal hwn yn gymwys iddynt. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y Cymal hwn yn arbennig o anarferol gan y bydd gofynion o'r fath yn gymwys i'r Comisiwn ond na fyddant yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig eraill.

**28.** Er nad yw'r Aelodau yn pryderu bod y Comisiwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu cydraddoldeb, mae'r Pwyllgor yn pryderu y dylai'r Comisiwn fod yn atebol i'r Senedd nid Gweinidogion y DU am y cynlluniau hyn pe baent yn gwneud rheoliadau yn unol â'r Bil hwn. Yn y pen draw, mae'r Aelodau'n pryderu y gallai'r cymal hwn danseilio atebolrwydd Comisiwn y Senedd i'r Senedd o ran mater pwysig.

**29.** Mae'r Memorandwm hwn wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ogystal â'r Pwyllgor hwn. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi cwestiynau penodol ar y Memorandwm gan gynnwys cwestiynau ynghylch Cymal 26. Yn benodol, gofynnwyd yn y llythyr:

> *"Fel y dywedwch yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymal 26, mae Comisiwn y Senedd o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon. A fyddech cystal â darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pam ei bod yn briodol bod Comisiwn y Senedd o fewn ei chwmpas, tra bo'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru wedi'u heithrio?*
>
> *Mae cymal 26 hefyd yn darparu bod yn rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i nifer o gyrff o dan y ddarpariaeth hon; fodd bynnag, nid oes gofyniad tebyg i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud*

> *rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd. A allwch chi esbonio pam y mae felly?"*[13]

**30.** Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau hyn fel a ganlyn:

> *"Mae cynnwys Comisiwn y Senedd yng nghwmpas cymal 26 yn deillio o'i restru yn Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (o dan y pennawd "Cyrff Seneddol a Datganoledig"). Mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban o fewn cwmpas yn yr un modd. At ddibenion Deddf 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig, mae'r cyrff seneddol hyn yn wahanol i awdurdodau cyhoeddus datganoledig eraill Cymru a'r Alban.*
>
> *Mae'r gofyniad bod un o Weinidogion y Goron yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 78A newydd yn gymwys dim ond pan fo'r rheoliadau'n gymwys i gorff a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd am ei fod wedi'i restru yn Rhan 1 o'r Atodlen, nid Rhan 4."*[14]

**31.** Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd wedi ysgrifennu at y Llywydd ar wahân, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd, er mwyn gofyn am farn y Comisiwn am gynnwys cymal 26, a manylion am unrhyw waith ymgysylltu y gall fod wedi'i wneud gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU[15]. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Llywydd:

> *"na ymgynghorwyd â ni ac na chawsom unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon. Oherwydd natur gyfyngedig y wybodaeth sydd ar gael, nid ydym yn glir beth fyddai unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn eu cynnwys. Hoffem, felly, weld y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod y Comisiwn yn cael ei gynnwys*

[13] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 31 Ionawr 2025
[14] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Chwefror 2025
[15] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd, 31 Ionawr 2025

> *fel ymgynghorai statudol er mwyn caniatáu cyfle i ni wneud sylwadau ar unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw reoliadau dilynol."*[16]

## Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n fawr am Gymal 26 o'r Bil. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod materion cyfansoddiadol yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng y Comisiwn, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, mae'r Aelodau'n teimlo ei bod yn gwbl amhriodol i Lywodraeth y DU gymryd pwerau sy'n caniatáu iddi osod gofynion ar Gomisiwn y Senedd ynghylch sut mae'n gweithredu y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl, gan gynnwys deddfwriaeth safonol sy'n gymwys i bob cyflogwr. Mae'r Aelodau'n teimlo bod hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r ffaith na fydd gofynion o'r fath yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig eraill. Mae'r Pwyllgor o'r farn, yn amodol ar y cafeatau sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, y dylai Comisiwn y Senedd fod yn atebol i Senedd Cymru ac nid i Weinidogion Llywodraeth y DU. Mae hyn yn peri cymaint o bryder i'r Pwyllgor y mae wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn benodol i leisio ei farn am Gymal 26[17].

O ystyried pwysigrwydd y mater polisi, yn enwedig o amgylch elfennau undebau llafur/cysylltiadau diwydiannol y Memorandwm, mae'r Pwyllgor yn teimlo nad oedd ganddo ddigon o amser i ystyried y materion yn llawn a chymryd digon o dystiolaeth i gytuno ar safbwynt sefydlog. O ganlyniad, ni fydd y Pwyllgor yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd roi cydsyniad.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am oblygiadau Cymal 26 o'r Bil ac yn teimlo ei bod yn amhriodol i Weinidogion y DU allu gosod gofynion ar Gomisiwn y Senedd fel hyn. Mae'r Aelodau'n teimlo, yn amodol ar unrhyw faterion a gedwir yn ôl, y dylai'r Comisiwn fod yn atebol i'r Senedd yn y pen draw am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, ac mae gan Gymal 26 y potensial i danseilio hyn.

**Casgliad 2.** Nid yw'r Pwyllgor wedi cytuno ar safbwynt sefydlog ar gynnwys polisi'r Memorandwm felly ni fydd yn cynnig argymhelliad ynghylch cydsyniad.

[16] Llythyr oddi wrth y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2025
[17] Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2025